

# Llythyr at y Golygydd

Annwyl Olygydd,

Ysgrif wir ddiddorol yn *Y Casglwr* o eiddo Dafydd Guto a'm symbylodd i fynd i chwilio am fedd Arthur Owen Vaughan, cyn-filwr, hanesydd, nofelwr, anturiwr. Disgrifiad un newyddiadurwr ohono ddiwrnod ei angladd oedd: 'Gŵr galluog urddasol, haeddai gael ei barchu gan yr oll o'r gymuned.' Roedd 'mawrion' Y Rhyl yn yr angladd, ynghyd â thri chant o filwyr o wersyll Cinmel yn ei hebrwng i fynwent Sant Tomos.

Rwyf yn wir ddiolchgar i geidwad yr eglwys am ei gyfarwyddiadau i gyrraedd y fynwent a chael hyd i'r bedd.

Mae'r maen sydd arno yn Geltaidd yr olwg a'r patrymau a'r sumbolau wedi eu cerfio'n gywrain. Tybed ai Owen a drefnodd hyn cyn ei farw?

OWEN RHOSCOMYL

Bu farw 15ed Hydref 1919 yn 56 oed.

Mae'r 'sgrifen ar waelod y garreg yn fwy aneglur a bu'n rhaid mynd am ddŵr i olchi a chrafu'r mwsog, a daeth y canlynol i'r golwg:

Caraf ei morfa a'i mynyddoedd: a'i chaer ger ei choed a'i chain dired; a'i dolydd a'i dwfr a'i dyffrynoedd . . . caraf ei milwyr a'i meirch hywedd: a'i diffaeth mawr ei faich a'i moranedd.

Mae dau faen cul ar y naill ochr i'r bedd, ar y dde:

'Gweniaith brydferth a chwerthin fu erioed ar dy fin.

Ar y chwith:

-- Also Catherine Lois Vaughan  
Born 10 June 1886. Died 25 March 1927

Ar du ôl y maen mae:

Maen Owein  
Cymru a'i cododd.

Y pen arall i'r bedd mae carreg filwrol gyda'r 'sgrifen:

Lieutenant Colonel  
A. O. VAUGHAN, DSO, DCM, OBE  
King's Own Yorkshire L.I.  
15:10:1919 age 56.  
OWEN RHOSCOMYL

Yn y canol rhwng y ddwy garreg mae maen bychan er cof am:

RHYS VAUGHAN  
Son of A. O. Vaughan  
and Catherine Vaughan  
Born 17 May 1902  
Died  
Timmins Ontario Canada  
21 Nov. 1985

Disgwyl bydd rhyw bwt fel hyn yn help a hwyrach y daw mwy i'r golwg yn y man.


Bûm yn ffodus i gael hyd i ddau o'i lyfrau: *The Jewel of Ynys Galon* a *The Lady of Castell March*, gyda *Flame Bearers of Welsh History* wedi cyrraedd heddiw gan Dafydd Guto.

Yn gywir,

EMRYS ROWLANDS  
Fron Deg  
Cerrigydrudion, Corwen  
LL21 9UB



Carreg fedd Owen Rhoscomyl.



Carreg fedd Rhys Vaughan, mab Owen Rhoscomyl.

## YN EISIAU

*The Chirk Castle Accounts 1666-1753* gan William Myddleton. *The Ancient Bridges of Wales and Western England* gan Jervoise. *Cofiant Thomas Pierce* gan H. E. Thomas. *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol 1951*. Cysyllter â Bob Owen, 2 Dalar Wen, Dinbych, Sir Ddinbych LL16 3HT neu (01745) 813173.

\* \* \* \* \*

*Prince of Crime*: John Morgan. Hanes Murray 'The Hump' Humphreys. *Golwg ar y Byd* gan Dafydd Lewis, 1735 neu 1825. Cysyllter â (01678) 540652.

## AR WERTH

*Y Gwenynydd* gan Michael D. Jones (1888), £10.

\* \* \* \*

*Y Ford Gron*, 1930-1935 (set gyflawn), £60.

\* \* \* \*

*Egwyddorion Gwrteithio* gan Bryner Jones (1897), £6.

\* \* \* \*

*Y Tir a'i Gynnyrch* gan R. Alun Roberts (1931), £5.

\* \* \* \*

*Cwrr y Llen* gan Gwilym Owen (1914), £6.

Cysyllter â: (01678) 540 652